WHC/2017/036

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi:** *24 Gorffennaf 2017*

**STATWS: GWYBODAETH**

**CATEGORI: POLISI**

| |
|---|
| **Teitl:** Canllaw ar gael cydsyniad i gynnal archwiliad neu ddarparu triniaeth - canllawiau diwygiedig |

| |
|---|
| **Dyddiad dod i ben/Adolygu: mis Medi 2022** |

| | |
|---|---|
| **I'w weithredu gan:**<br>Brif Weithredwyr; Cyfarwyddwyr Meddygol; Cyfarwyddwyr Nyrsio ac Arweinwyr ar Gydsyniad Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG<br><br>**Er gwybodaeth:**<br><br>Cadeiryddion ac Ysgrifenyddion Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG<br>Aelodau'r Fforwm Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol;<br>Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Gydsynio i Driniaeth;<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG Cymru<br>Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru<br>Y Tîm Gweithrediadau – Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru<br>Y Tîm Cyfathrebu – Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru<br>Y Prif Swyddog Meddygol<br>Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol | **Angen gweithredu erbyn:** I gael effaith ar unwaith |

**Anfonwyd gan:** Janet Davies, Pennaeth Ansawdd Gofal Iechyd, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Enw(au) Cyswllt HSSG yn Llywodraeth Cymru:**

Cyfarwyddiaeth Ansawdd a Nyrsio - qualityandnursing@gov.wales

**Dogfen(nau) amgaeedig:**

Gallwch fynd at y Cylchlythyr Iechyd hwn, a'r Atodiadau a restrir isod, yma

Atodiad 1: Canllaw ar Gael Cydsyniad i Gynnal Archwiliad neu Ddarparu Triniaeth
Atodiad 2: Crynodeb ooblygiadau achos Montgomery
Atodiad 3: Siart llif

Annwyl Gydweithwyr

**Canllawiau diwygiedig: Canllaw ar Gael Cydsyniad i Gynnal Archwiliad neu Ddarparu Triniaeth**

Mae Safonau Iechyd a Gofal 2015 yn pwysleisio bod gwneud penderfyniadau ar y cyd a chydgynhyrchu yn elfennau hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal o ansawdd da, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Rhaid i unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch cynllunio a darparu eu gofal er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion. Mae'r broses gydsynio yn rhan allweddol o wneud penderfyniadau ar y cyd. Nid un digwyddiad sy'n mynd heibio'r sydyn yw cael cydsyniad, ond yn hytrach mae'n broses o drafod, ac o bwyso a mesur yr opsiynau, gan helpu pobl i wneud y penderfyniad iawn sy'n addas ar eu cyfer fel unigolion.

O gadw hynny mewn cof, mae'r canllawiau ar gyfer cael cydsyniad a gafodd eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2008 bellach wedi cael eu diwygio, drwy gyflwyno newidiadau sy'n rhoi sylw i'r datblygiadau pwysig mewn cyfraith achosion. Mae fersiwn ddiwygiedig y *Canllaw ar Gael Cydsyniad i Gynnal Archwiliad neu Ddarparu Triniaeth* yn cynnwys golwg gyffredinol ar y gofynion cyfreithiol ar gyfer ceisio cydsyniad.

Er mwyn adolygu'r canllawiau, sefydlodd Llywodraeth Cymru grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2015, gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r GIG yng Nghymru, i ystyried pa newidiadau fyddai'n angenrheidiol. Rydym yn ddiolchgar iawn i Dr Ben Thomas, a gadeiriodd y grŵp, a'i gydweithwyr am eu holl waith caled.

Nod y grŵp a'r diwygiadau i'r ddogfen oedd ystyried achos Montgomery, a symudodd ffocws cydsyniad tuag at anghenion penodol y claf. Mae crynodeb o achos Montgomery ynghyd â siart llif ar gyfer staff gofal iechyd yn yr Atodiadau i'r Cylchlythyr Iechyd hwn. Drwy gadw at yr egwyddorion a ddeilliodd o achos Montgomery, daw'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch archwiliadau a thriniaethau yn rhywbeth sy'n digwydd ar y cyd rhwng clinigwyr a chleifion. Mae'r dull gweithredu hwn yn seiliedig ar yr egwyddor o ddarparu gofal a chynhyrchu canlyniadau mewn modd sy'n canolbwyntio ar y claf. Hoffem hefyd dynnu eich sylw at y canllaw arferion da *Consent: Supported Decision-Making*[1], a gyhoeddwyd gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon, ynghyd â'r cyngor sydd ar gael ar wefan y Cyngor Meddygol Cyffredinol [2].

Er mwyn hwyluso'r defnydd ymarferol o'r canllaw hwn, bydd GIG Cymru yn cynhyrchu fersiynau diwygiedig o Bolisi Enghreifftiol ar gyfer GIG Cymru a ffurflenni cydsyniad. Bydd Grŵp y Cyfarwyddwyr Meddygol, a arweinir gan y GIG, yn ystyried ac yn cymeradwyo'r dogfennau hyn a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wahân maes o law. Dylai sefydliadau adolygu unrhyw bolisïau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn gyson.

Yn gywir

[1] Consent Supported Decision Making - RCS 2016

[2] http://www.gmc-uk.org/guidance/27164.asp

Janet Davies
Pennaeth Ansawdd Gofal Iechyd, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol